

118)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader Ionawr 20fed 2020—20/1/20—7.30pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies(cadeirydd/chairman)E. Jones,B.Cobain,Arwel Davies, M.Griffiths,H.Lewis,Y.Griffiths,G.Jones,M.Evans,C.Sir L.Evans.Ymddiheuriadau(apologies):V.Davies,D.Davies,S.Mason.

Clerc:Anita Evans, Heddlu:neb;

1)Dechreuwyd am 7.30.Croesawodd Annette Davies(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod.Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda I bawb,ond yn anffodus roedd rhaid cydymdeimlo yn ei habsennoldeb,â Shirley Mason ar farwolaeth ei mam â'i chwaer yng nghyfraith.Dymunwyd gwellhad buan i Val Davies sydd yn yr ysbyty.The chairman extended sympathy to Shirley Mason(in her absence)on the death of her mother.Val Davies is in hospital,and we wish her a speedy recovery.

2)Heddlu: doedd dim aelod o'r heddlu'n bresennol ond roedd PCSO Shanice Thomas wedi anfon diweddariad:waled wedi ei chodi o'r llawr a dim rhoi fewn ar safle Windy Corner;nifer o geir o gwmpas heb MOT na threth arnynt.Up date from the police:wallet found on the ground in the vicinity of Windy Corner,and not handed in(police think they have identified the culprit);various reports received re.cars in the area with no MOT or road tax.

3)Datgan diddordeb gan yr aelodau/declaration of interest by members—none.

4)Cofnodion mis Tachwedd/Nov.minutes found to be a true record;prop.E.Jones;sec.M.Griffiths.

5)Materion y Clerc/matters from the Clerk:

a)Les y toiledau:derbyniwyd y les nôl oddiwrth ein cyfreithiwr,ac mae E.Jones wedi edrych dros y gwaith papur.Nodir y pwyntiau canlynol:angen codi ysiwriant i £10 miliwn yr un i'r ddwy safle;does dim un fath o faneri i fod ar y blaen;gellir gadael y cytundeb gyda'r Cyngor Sir ar ôl y flwyddyn gyntaf,ac wedyn ar ôl 2 flynedd(bydd rhaid rhoi 6 mis o notis).E.Jones has read through the lease for the 2 toilet sites,and draws attention to the following:public liability insurance is to be raised to £10 million for both sites;we can exit the contract after the 1st year,and then after every 2 years(with 6 months notice expected for both sites).

b)Heddlu:yn dilyn ein llythyr I Gomisiynydd yr Heddlu yn cwyno am absennoldeb yr Heddlu o Bencader,mae Insp.Owen Williams wedi ymateb;a)Camper van tu ol Bro'r Hen Wr—ddim yn gallu helpu;b)plant yn chwarae ar y ffordd fawr—PCSO Thomas i gadw llygad;c)plant ar sgwteri ym Mhencader—heddlu wedi bod yn siarad â phlant yr ysgol—ddim yn gweld problem nawr;ch)plentyn wedi difrodi eiddo yn y Cornel Chwarae—PCSO i fod yn yr ardal pan mae amser yn caniatáu.Insp.Owen Williams has responded following this Council's complaint of lack of Police presence in Pencader,and the problems that persist:a)camper van behind Bro'r Hen Wr—police can't help;b)children playing out on the main road—PCSO to monitor;c)children riding scooters on the main road in Pencader—police have been to speak to pupils of Cae'r Felin,and seem to think problem has been solved;d)vandalism in the Play Corner—PCSO will visit regularly.

c)Ymateb Tony Wms(Priffyrdd)i'n pryderon diweddar:coed ar hewl Pencraigwen-coed preifat-ein cyngori ffono Stephen Edwards;bwriadu trefnu arolwg ym Mhontweli i weld all rhywbeth ei wneud i wella'r broblem dwr yn rhedeg o Bencraigwen;credu bod y sefyllfa dwr yn cronni ar Heol y Felin wedi ei wella.Tony Wms(Highways)has updated us following recent concerns—we are advised to contact Stephen Edwards—arboriculture officer re complaints from the public of dangerous looking trees near Pencraigwen;Mr Williams intends to conduct an inspection to try and solve the problem of water cascading down the rocks(in all weather) from the direction of Pencraigwen;seems to think the flood on the Bakery Rd.Pencader has been solved.

119) 6) Ariannol/financial: cafwyd yr adroddiad yn gywir—report found to be correct—prop.E.J. sec M.G.

Biliau i'w talu/bills to be paid: cyflogau/wages Dec:£1,733.72;Windy Corner(petrol):£136.08;repairs laptop:£30;costau'r Clerc/costs(25/10—31/12):53.76.Cyflogau/wages Jan.£1,733.72.Cytunwyd eu talu/bills to be paid:prop.E.Jones,sec.M.Griffiths.Derbyniwyd siec y praecept--£16.333.33(praecept cheque paid into account.

7)Cynllunio/planning(C.S.L.Evans ddim yn cymeryd rhan/took no part in discussions)

Roedd yr aelodau wedi derbyn gwybodaeth a doedd dim gwrthwynebiad/Clerk had e-mailed members with planning application details.There were no objections.

a)Llety Teg,Pencader(codi sied/shed for agricultural purposes)

b)Eagle Llanfihangel –proposed development of 8 residential units.

8)Gohebiaeth/correspondence:C.Sir Gâr/Carm.C.C.

1)Llwybr 13/44 gofyn ydy'r Cyngor yma wedi derbyn cwynion am y llwybr—negyddol/we are asked if we have had complaints re.this path.The answer is no,and Clerk will respond.

2)Llythyr am osod y praecept—bydd rhaid cael cyfarfod is-bwyllgor cyllid gyntaf/The County C.wish to be informed as to the praecept we require for the coming year;the finance sub committee will meet first.

3)Ffioedd cynllunio—dyddiad cau ymateb 13/03;planning charges review—responses by 13/03.

Eraill/other:

4)Age Cymru Sir Gar—diolch/thanks for donation.

5)Playdale—Clerc wedi anfon y ffurflen addas i archebu arolwg/form for inspection has been sent.

6)Cronfa Fferm Wynt Gorllewin Brechfa –ffurflen i'w llenwi yn dilyn cyfraniad/a form has to be filled following a donation for defibrillators.

7)Ieuan Davies(prosiect afon Tywi)yn gofyn a fyddai gwirfoddolwyr yn barod i ymuno/asking if volunteers from Alltwalis would be interested in joining the Tywi River project.

8)V.Davies wedi anfon e-bost am y problemau ym Mhontweli:stâd wael yr hewl o Benrhiw i Bontweli;dŵr yn dod fyny o'r gratin ar y ffordd osgoi;tro Plyg y rhiw—pibell wedi diflannu a dŵr yn rhedeg lawr y rhiw.Problems in Pontweli—poor state of the road from Penrhiw to the by-pass,and full drains on the by-pass.At Plygyrhiw a drainage pipe has disappeared,resulting in water cascading down the hill.

9)Gwybodaeth oddiwrth y Cynghorwyr/ info.from Councillors:

G.Jones---hewl Glantweli Fach allan i'r ffordd fawr—twll ar yr hewl;eisiau clirio gratin ar bwys Gwen Cottage.Pothole near the junction of Glantweli Fach Rd.and the main rd./drain near Gwen Cottage needs clearing.

Arwel Davies---paent ar groesfan Maescader yn diflannu/paint on the crossing to Maescader is fading.

120) 9) Gwybodaeth parhâd/info.

B.Cobain---ar hewl Ty Newydd mae'r goleuadau reflector dal heb eu hail osod;coed rhiw Alltwalis yn edrych yn beryglus;mae'r twll o flaen Neuadd yr Eglwys,Pencader heb ei gywiro.We asked for reflector lights to be replaced near Tynewydd –not done;trees on Alltwalis hill look dangerous;hole outside Pencader Church Hall still not repaired.

M.Griffiths---Cyngor heb orffen newid rhai o'r goleuadau stryd ym Mhontweli;coed yn edrych yn beryglus ym Mhontweli.Some street lights in Pontweli have not been changed;some dangerous looking trees in Pontweli.

M.Evans—dŵr yn cronni pen hewl Lan yn Gwyddgrug,ac yn rhedeg lawr y rhiw—angen mawr i lanhau'r drains;mae'r gwteri'n llawn o Blaenblodau lawr hewl Talog,a hyn ar ol gwario llawer o arian i wella'r ffordd.Serious need to clear all drains to avoid floods—in Gwyddgrug on the Lan entrance(water cascading down the hill)and also on the Talog road;a lot of money was spent here to create better culverts,but drains are ignored.

Y.Griffiths---golau fflachio ddim yn gweithio o hyd;gofyn pryd mae'r Cyngor Sir yn mynd i wella arwynebedd y ffordd o Danfforddougou i bentre Gwyddgrug.Flashing speed lights still faulty(in Gwyddgrug),and asks when the stretch of road from Tanfforddougou Farm to Gwyddgrug is going to be resurfaced.

H.Lewis---gofyn am hyfforddiant/asks for defibrillator training.

Annette Davies—golau fflachio ym mhentre Llanfihangel ddim yn gweithio;tyllau ar y ffordd Crossmaen I Benlan;bin halen heb gyrraedd Marshlands/flushing speed light faulty in Llanfihangel;potholes numerous on road from Crossmaen to Penlan;salt bin not replaced in Marshlands;fly tipping on the lay by near Windy Corner.

Daeth y cyfarfod I ben 8.50-meeting ended.